



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



19/4/21

Annwyl Rieni,

NOSWEITHIAU RHieni – 27ain ac 28ain EBRILL 2021

Rydym yn cynnal Nosweithiau Rhieni ar **ddydd Mawrth 27^{ain} Ebrill** a **Dydd Mercher 28^{ain} Ebrill**. Bydd y cyfarfod yn gyfle i chi drafod lles a chynnydd cyffredinol eich plentyn gyda'i athro dosbarth. Mae'r ysgol am wedi buddsoddi mewn system newydd, hwylus er mwyn i chi drefnu apwyntiadau nosweithiau rhieni eich hun. Mae'r system hon yn eich galluogi i ddewis amser eich apwyntiad (yn dibynnu ar argaeledd) ac fe fyddwch yn derbyn ebost yn cadarnhau eich apwyntiad. Bydd y cwbl yn cael ei weinyddu ar-lein ar: <https://ysgolparcybont.schoolcloud.co.uk/>. Mae'r system yn ein galluogi i gynnal **apwyntiadau fideo**. **Er diogelwch pawb, bydd cyfarfodydd rhieni tymor yma ar-lein, gyda staff a rhieni yn cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo.**

Nodwch y wybodaeth a'r cyfarwyddiadau pwysig isod o.g.y.dd:

- Gallwch drefnu apwyntiadau rhwng **7yh ar ddydd Llun 19eg Ebrill (heno) a 10yh ddydd Mercher 21ain Ebrill**. Ni allwch gael mynediad i'r system trefnu apwyntiadau cyn 7yh ar 19eg Ebrill. Ar ôl 10yh ar 21^{ain} Ebrill dim ond gweld ac argraffu apwyntiadau allwch chi ei wneud.
- Ewch i'r wefan a nodir uchod i drefnu'ch apwyntiad(au).
- Trefnwch un apwyntiad yn unig ar gyfer pob plentyn. Byddwn yn gwirio'r system ar gyfer mwy nag un apwyntiad ac yn cywiro hyn yn ôl y gofyn.
- **Mae 'Canllaw i rieni ar gyfer trefnu apwyntiad' yn atodol (gweler isod). Mae gwybodaeth ar sut i fynychu apwyntiadau fideo [ar gael yma \(cliciwch y ddolen\)](#) . Cyfarwyddiadau ar gael yn Saesneg yn unig ar y funud yn anffodus.**
- Dylid mewnbynnu'r wybodaeth isod wrth fewngofnodi o.g.y.dd:
 - Mae'r system yn defnyddio gwybodaeth rhiant 'cyswllt 1' fel ag y sydd wedi'i nodi ar ein system, felly efallai y bydd angen i chi drïo rhoi eich enw chi neu enw'ch partner.
 - Enw cyntaf eich plentyn, eto fel y mae wedi ei nodi ar gofrestr yr ysgol.
 - Cyfenw eich plentyn.
 - Dyddiad geni e.e. 10/01/2015
- Nodwch o.g.y.dd, y bydd angen i rieni gyda mwy nag un plentyn yn yr un dosbarth drefnu apwyntiad ar wahân ar gyfer pob plentyn.

Gall fod angen i'r ysgol addasu apwyntiadau ar ôl i'r cyfnod trefnu apwyntiadau ddod i ben - dim ond os fydd wirioneddol raid y byddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw newid drwy ebost/neges destun. **Defnyddiwch eich manylion mewngofnodi i edrych ar eich rhestr apwyntiadau terfynol ar gyfer y noson, i sicrhau ei fod yn cynnwys unrhyw newid yr ydym ni / ydych chi wedi'i wneud.**

Cysylltwch â ni yn ystod oriau ysgol os ceuwch unrhyw broblem e.e. trafferthion mewngofnodi, neu os oes ganddoch unrhyw gwestiynau pellach. **Sicrhewch o.g.y.dd eich bod wedi darllen y cyfarwyddiadau ar gyfer trefnu apwyntiad a defnyddio apwyntiadau fideo.**

Mae symud i gynnal nosweithiau rhieni ar-lein drwy gyfarfodydd fideo o bell yn gam mawr i ni ac yn newid sylweddol i bawb. **Gwerthfawrognwch eich amynedd yn ddifawr tra y byddwn yn rhoi hyn ar waith am y tro cyntaf.** Mae'r athrawon yn edrych ymlaen at eich cyfarfod ar-lein ar 27 / 28 Ebrill.

Cofion gorau,

Iwan Wyn Taylor

(Pennaeth)



Canllaw i rieni ar gyfer trefnu apwyntiad

Ewch i'r wefan yma: <https://ysgolparcybont.schoolcloud.co.uk/>



Cam 1: Mewngofnodi

Llenwch y manylion ar y dudalen ac yna cliciwch i fewngofnodi.

Bydd cadarnhâd o'ch apwyntiadau yn cael eu hanfon i'r ebost y byddwch yn ei roi.

Cam 2: Dewis Noson Rieni

Dewiswch y dyddiad/noson o'ch dewis chi..

Os nad yw'r dyddiadau yn gyfleus, cliciwch ar '*I'm unable to attend*'.

Cam 3: Dewis Dull Archebu

Dewiswch yr opsiwn '*awtomatig*' os hoffech i'r system greu amserlen apwyntiadau yn seiliedig ar yr amseroedd yr ydych ar gael i fynychu. I ddewis amseroedd eich hun i gyfarfod pob athro/awes, dewiswch '*Manual*'. Yna pwyswch *Nesaf* ('*Next*'). Rydym yn argymhell defnyddio'r opsiwn / dull dewis '*awtomatig*' os ydych yn pori ar ffôn symudol.

Cam 4: Dewis Athrawon

Os ydych yn defnyddio'r dull trefnu apwyntiadau awtomatig, nodwch yr amser cynharaf a'r hwyraf y gallwch ei fynychu gan ddefnyddio'r arf ar dop y sgrin.

Dewiswch yr athrawon yr hoffech gael apwyntiad gyda nhw. Bydd tic gwyrdd yn dangos eu bod wedi cael eu dewis. I ddad-dicio, cliciwch eu henwau.

Cam 5a (Awtomatig): Trefnu Apwyntiadau

Os ydych yn dewis i'r system archebu apwyntiadau yn awtomatig, fe welwch fod apwyntiad(au) yn cael eu cynnig i chi – fe fyddant yn cael eu dal am 2 funud. I'w cadw, cliciwch i'w derbyn.

Os nad oedd yn bosibl i'r system drefnu apwyntiad gyda phob athro/athrawes yn ystod yr amser yr ydych chi ar gael i fynychu, newidwch i'r dull o ddewis apwyntiadau eich hun (Cam 5b isod).

Cam 5b (Dewis eich hun): Trefnu Apwyntiadau

Cliciwch ar unrhyw un o'r celloedd gwyrdd i wneud apwyntiad. Mae'r celloedd glas yn dangos eich dewis chi. Celloedd llwyd ddim ar gael.

I newid apwyntiad, dilwch eich dewis drwy hofran dros y gell las a chlicio '*Delete*'. Yna dewiswch amser arall.

Unwaith yr ydych wedi trefnu pob apwyntiad, ar dop y dudalen cliciwch '*click here*' i gwblhau'r broses.

Cam 6: Wedi Cwblhau

Bydd eich holl apwyntiadau yn dangos ar y dudalen '*My Bookings*'. Bydd cadarnhad wedi'i anfon drwy e-bost ac fe allwch hefyd argraffu'r apwyntiadau os dymunwch. Cliciwch ar '*Subscribe to Calendar*' i ychwanegu'r apwyntiadau yma, ac apwyntiadau i'r dyfodol, i'ch calendr.

I newid eich apwyntiadau, cliciwch ar '*Amend Bookings*'.